**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 19 Chwefror, 2018 (PRYNHAWN)**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 22 Chwefror, 2018. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 1 Mawrth, 2018. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 2 Mawrth, 2018.

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr R. Dew, John Griffith, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun Wyn Mummery a Carwyn Jones.

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Griffiths, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Eric Jones, R. Llewelyn Jones, Shaun Redmond

**Ymddiheuriadau**: Cynghorydd R. Meirion Jones

(1:00pm – 2:15pm)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, 2018 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Mawrth, 2018 i Hydref, 2018 yn amodol ar y newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cryfhau trefniadau atebolrwydd a blaengynllunio** |

| | |
|---|---|
| | |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Cynllun Rhanbarthol – Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd Cymeradwyo Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cydymffurfio â gofyniad statudol.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Tai Gofal Ychwanegol, Seiriol**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>**• Bod Safle Ysgol Biwmares yn cael ei ddefnyddio er mwyn datblygu Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol.**<br>**• Bod y datblygiad yn cael ei ariannu drwy'r Cyfrif Refeniw Tai.**<br>**• Yn ddibynnol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad mewn perthynas â dyfodol Ysgol Biwmares, dylid adeiladu'r datblygiad un ai tu ôl i'r ysgol fel rhan o ddatblygiad integredig gyda'r ysgol yn parhau ar agor neu dylid ei adeiladu gan ddefnyddio rhannau o adeilad yr ysgol petai penderfyniad yn cael ei wneud i gau'r ysgol.**<br>**• Fe ddylai'r broses ddatblygu ar gyfer y cynllun ystyried y pwyntiau a godwyd mewn perthynas â'r safle yn ystod y broses ymgysylltu a sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried a bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y safle yn hwylus ar gyfer pobl hŷn. Er enghraifft, gan fod y datblygiad ar allt,** |

| | |
|---|---|
| | **cynnwys cyfleoedd am lwybrau ychwanegol a chludiant cymunedol i'r dref. Hefyd, sicrhau bod y datblygiad yn gweithredu fel rhywle y gellir cynnal digwyddiadau cymunedol ynddo a sicrhau integreiddiad da â'r dref a chymunedau ehangach ledled De yr Ynys.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn datblygu Rhaglen Drawsnewid y Gwasanaethau Oedolion.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Adroddiad Cynnydd – Gwasanaeth Plant a Theuluoedd**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â'r camau a gymerwyd i fynd ati i weithredu'r Cynllun Gwella ar gyfer y Gwasanaeth a chyda chyflymder y cynnydd a wnaed.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilwyr yn dilyn yr archwiliad** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Diwygiedig**<br>Adroddiad gan Bennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd mabwysiadu'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol diwygiedig.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn mabwysiadu'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol diwygiedig.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |